Y Fonesig Rosemary Butler AC
Dame Rosemary Butler AM

Llywydd
Presiding Officer

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Chwefror 2014

Annwyl David

Yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr, trafododd y Pwyllgor Busnes effeithiolrwydd pwyllgorau wrth wneud gwaith craffu ar y gyllideb.

Yn benodol, ystyriodd y Rheolwyr Busnes bryderon a fynegwyd yn ystod y broses gyllideb ddiweddaraf am y diffyg cydberthynas rhwng portffolios y Gweinidogion a phortffolios y pwyllgorau, a bod hynny'n golygu nad oes gwaith craffu'n digwydd ar rai meysydd polisi gan unrhyw bwyllgor.

Roedd un enghraifft yn ymwneud â'r Gymraeg. Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol sy'n bennaf cyfrifol am faes polisi'r Gymraeg. Er mai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau sydd â'r gyllideb ar gyfer y maes, y Gweinidog sy'n gyfrifol am y maes yw'r Prif Weinidog.

Roedd pryder arall fod yr amserlennu o ran y gyllideb yn golygu bod y llythyrau a anfonir gan bwyllgorau at y Gweinidog Cyllid neu'r Pwyllgor Cyllid yn dod i law'n rhy hwyr i lywio gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar y Gweinidog Cyllid.

Felly, penderfynodd y Pwyllgor Busnes edrych ar y broses er mwyn sicrhau bod y gwaith craffu mor effeithiol â phosibl yn y dyfodol. Rwy'n ysgrifennu atoch i geisio eich barn am unrhyw faterion sy'n deillio o broses y gyllideb eleni ac am unrhyw sylwadau sydd gan eich Aelodau am sut y byddai modd gwella'r broses yn y dyfodol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 21 Chwefror.

Rosemary

**Y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Busnes**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cymru.gov.uk
www.cynulliadcymru.org
T +44 (0)29 2089 8230

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Private.Office@wales.gov.uk
www.assemblywales.org
T +44 (0)29 2089 8230